# Gwahoddiad i dendro

## i ddatblygu fframwaith gwerthuso a model rhesymeg i fesur effaith gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru o dan nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

### Cefndir

Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yw asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru.

Rydyn ni'n cynghori ac yn cefnogi artistiaid a sefydliadau celfyddydol o Gymru sy'n gweithio yn rhyngwladol. Rydyn ni'n bwynt cyswllt ar gyfer artistiaid, sefydliadau ac asiantaethau rhyngwladol sy'n gweithio yng Nghymru neu'n cysylltu â Chymru.

Ein diben yw:

- sicrhau bod artistiaid yng Nghymru yn ymgysylltu yn rhyngwladol;
- helpu i ddatblygu a chyfoethogi arferion, gyrfaoedd ac uchelgeisiau artistig;
- datblygu cyfleoedd rhyngwladol newydd ar gyfer y celfyddydau a diwylliant Cymru;
- buddsoddi mewn cydweithio artistig sy'n ysbrydoli ac yn cysylltu pobl yng nghymunedau amrywiol Cymru.

### Y Cyd-destun

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddarn arloesol o ddeddfwriaeth. Ei nod yw gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gymryd camau gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae gan y 44 corff cyhoeddus yng Nghymru – gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru – ddyletswydd statudol i gychwyn ar y daith hon er mwyn newid pethau, ac i wreiddio datblygu cynaliadwy yn eu holl sefydliadau. Rydyn ni'n falch o gefnogi dull arloesol Cymru ym maes datblygu cynaliadwy drwy roi diwylliant yn ganolog i hynny,

fel pedwaredd golofn ynghyd â chynaliadwyedd amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol.

Fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer y celfyddydau yng Nghymru, mae gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'i asiantaeth ryngwladol, Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, gyfraniad sylfaenol a sylweddol i'w wneud wrth wireddu'r saith nod llesiant.

Mae Strategaeth Ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi sail i waith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ei dro yn gweithio ar sail ei Gynllun Corfforaethol, 'Er Budd Pawb'. Mae'r ddwy strategaeth yn cyflwyno ein blaenoriaethau strategol a fydd yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ar ystod o raglenni i helpu i gyflawni Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru.

## Y Briff

Gyda Covid-19, Brexit, mudiadau Mae Bywydau Du o Bwys a Ni Chawn Ein Dileu, a'r argyfwng hinsawdd yn gefndir, mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru, sef asiantaeth ryngwladol Cyngor Celfyddydau Cymru, yn rhoi cyfeiriad newydd i'n gwaith rhyngwladol. Mae hyn yn gysylltiedig â gwaith a thrafodaethau sy'n mynd rhagddyn nhw i ailosod y llwyfan yng Nghyngor Celfyddydau Cymru ac yn y sector diwylliannol yn rhyngwladol. Mae'n bwysicach nag erioed inni allu dangos sut y mae ein buddsoddiad cyhoeddus, ein partneriaethau, ein gwaith partneriaeth a'r ôl-troed carbon sy'n cael ei greu gan ein gweithgareddau'n arwain at ganlyniadau gwerthfawr i ddinasyddion Cymru a'r byd. Mae angen inni allu mesur effaith y canlyniadau hyn o dan yr agenda lesiant a mesur ein cyfraniad tuag at greu economi a diwylliant sydd wedi'u seilio ar lesiant.

Mae Celfyddydau Rhyngwladol Cymru yn dymuno comisiynu gwaith ymchwil i ddatblygu'r canlynol:

- fframwaith gwerthuso ymarferol i fesur effaith a buddsoddi rhaglenni Celfyddydau Rhyngwladol Cymru o dan nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys pennu llinell sylfaen DPA

- model rhesymeg i dywys prosesau penderfynu Celfyddydau Rhyngwladol Cymru wrth inni gamu ymlaen, gan gynnwys gwaith gyda'r tîm i sicrhau bod y model yn bwrw gwreiddiau fel dull o weithio

- fframwaith i'n helpu ni i ddatblygu opsiynau ar gyfer dull ymchwil mwy hirdymor ar raddfa fwy, dull y gellid ei ddefnyddio a'i addasu hefyd ar gyfer meysydd gweithgarwch eraill, gan gynnwys o bosibl i fesur a gwerthuso effaith gweithgarwch diwylliannol rhyngwladol yng Nghymru o dan nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rydyn ni'n croesawu defnyddio methodolegau ac arferion ymchwil sy'n ymwrthod ag agweddau gormesol, sy'n ddemocrataidd ac sy'n greadigol ac, fel rhan o'r dull hwnnw, rydym hefyd yn croesawu parodrwydd i ymgysylltu â chynrychiolaeth amrywiol o fewn sector y celfyddydau yng Nghymru.

Mae angen i'r model rhesymeg a'r fframwaith gwerthuso ymateb i'r gofynion a ganlyn:

- Ystyried gwerthusiadau, chynlluniau gweithredu ac adroddiadau mewnol ac allanol sy'n berthnasol i'n gwaith gan gynnwys adroddiad Contract Diwylliannol Cynghrair Diwylliant Cymru, adroddiadau ymchwil Ehangu Ymgysylltiad, Cynllun Gweithredu Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfer y Gymraeg a Chynlluniau Gweithredu Rhyngwladol Llywodraeth Cymru

  [Ar hyn o bryd rydyn ni'n ystyried cynnwys y 3 Adroddiad Ehangu Ymgysylltu a sut y gallwn fwrw ymlaen ag unrhyw rai o'u hargymhellion neu'r argymhellion i gyd. Yn y cyfamser, rydyn ni wedi cyhoeddi'r adroddiadau yn eu cyflawnder er gwybodaeth.]

- Ystyried ond nid dyblygu Fframwaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer Craffu a Fframwaith Asesu Effaith Cyfun Cyngor Celfyddydau Cymru

- Galluogi Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i werthuso ar draws gwahanol weithgareddau a buddsoddiadau prosiectau ein rhaglen ryngwladol, ac yn y pen draw, adrodd am y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud gyda golwg ar saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

- Eu bod yn ymarferol ac y gellid eu trosglwyddo i unigolion a sefydliadau yn y sector ac i feysydd eraill yn y celfyddydau a'r tu hwnt.

- Ystyried a defnyddio modelau perthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol

- Llywio cynllunio strategol a phrosesau rhoi grantiau Celfyddydau Rhyngwladol Cymru

- Gweithio ochr yn ochr â system newydd Cyngor Celfyddydau Cymru i Reoli Cysylltiadau â Chwsmeriaid (y system sy'n cipio data a gwybodaeth am ein buddsoddi a'n hariannu)

  Rydyn ni'n rhagweld y bydd y prosiect yn dechrau ym mis Ionawrr 2022 ac yn cael ei gwblhau cyn gynted ag sy'n ymarferol erbyn Mehefin 2022. Rhowch amserlen fanwl gyda'ch cyflwyniad os gwelwch yn dda.

## Meini Prawf

- Bydd ceisiadau llwyddiannus yn rhoi tystiolaeth ymarferol o'r canlynol:
  - Methodoleg effeithiol
  - Profiad o ddatblygu fframweithiau a modelau tebyg ac fe allai hynny gynnwys datblygu a phrofi methodolegau a dulliau amgen
  - Deall blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r hyn rydyn ni'n ceisio'i gyflawni
  - Deall y cyd-destun cyfredol a'r sgyrsiau sydd ar y gweill o fewn sector y celfyddydau gyda golwg ar lesiant, democratiaeth ddiwylliannol, cyfrifoldeb am yr hinsawdd, y Gymraeg a chydraddoldebau
  - Deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig (Nodau Datblygu Cynaliadwy)
  - Gallu dechrau ar y gwaith yn gyflym
  - Hanes o lwyddo wrth gyflwyno gwaith mewn pryd ac o fewn y gyllideb
  - Gwerth am arian

Swyddogion Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru fydd yn penderfynu ynghylch dyfarnu'r gwaith a bydd hynny'n cael ei seilio ar asesu i ba raddau y mae'r cais yn cydweddu â gofynion y briff a gyhoeddwyd.

## Cyllideb

Gall Celfyddydau Rhyngwladol Cymru gynnig mwyafswm o £20,000 (gan gynnwys TAW) i gefnogi'r gwaith hwn.

Rhoddir contract cyfnod penodedig ar gyfer y gwaith hwn. Dylai'r gyllideb y byddwch chi'n ei gynnig gynnwys TAW (lle bo hynny'n briodol) yn ogystal â chostau teithio a threuliau eraill a fydd yn codi'n uniongyrchol yn sgil y prosiect hwn.

## Cyflwyno eich cynnig

Rydym yn croesawu cynigion yn y Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog - ni fyddwn yn gwahaniaethu rhwng ceisiadau ar sail iaith.

**Cyflwynwch eich cynnig drwy borth GwerthwchiGymru erbyn hanner dydd 3 Rhagfyr 2021** ar gyfer derbyn Tendrau ("y Dyddiad Cau"). Er mwyn gweld y Briff ac unrhyw ddiweddariadau dilynol bydd gofyn i Ddarparwyr Posibl gofnodi eu diddordeb ymlaen llaw ar y porth.

Peidiwch ag anfon eich tendr drwy unrhyw ffordd arall. Os gwnewch chi hynny, ni chaiff ei dderbyn.

Dylech nodi'r canlynol yn eich cynnig:

- Sut y byddwch chi'n mynd ati i gyflawni'r prosiect
- Sut rydych chi'n cyflawni'r meini prawf a restrir yn yr adran Meini Prawf uchod, gan ddangos eich profiad blaenorol, eich gwybodaeth a'ch sgiliau.
- Manylion y costau gan gynnwys cyfraddau dyddiol, nifer arfaethedig y diwrnodau gwaith a manylion unrhyw aelodau ychwanegol o'r tim.
- Yr amserlen ar gyfer y prosiect, gan gynnwys y dyddiad cwblhau.

Gall Darparwyr Posibl ofyn am eglurhad am unrhyw rai o'r pwyntiau yn y dogfennau Tendr unrhyw bryd cyn y dyddiad cau ar gyfer gofyn cwestiynau o'r fath. Wrth gyflwyno'r Tendr, gwnewch yn siŵr bod yr holl ddogfennau cysylltiedig wedi'u llenwi'n gywir ac wedi'u cynnwys gyda'r Tendr.

Bydd GwerthwchiGymru yn gwrthod unrhyw dendr sy'n cyraedd ar ôl y Dyddiad Cau, ni waeth beth yw'r rheswm dros hynny. Felly, cyfrifoldeb y Darparwyr Posibl yw sicrhau eu bod yn cyflwyno'r cynnig mewn pryd erbyn yr Amser a'r Dyddiad Cau. Rhaid i gynnig cyflawn y Tendr gyrraedd GwerthwchiGymru erbyn yr Amser a'r Dyddiad Cau.

Ni fyddwn yn agor yr un Tendr nes bod yr Amser a'r Dyddiad Cau wedi mynd heibio; felly, ni chaiff neb ei gosbi am ddychwelyd Tendr yn gynnar. Serch hynny, ein cyngor ni yw na ddylai Darparwr Posibl gyflwyno'i Dendr cyn y dyddiad cau a bennwyd ar gyfer ceisio eglurhad, oherwydd fe allai fod angen cyfleu gwybodaeth bwysig hyd at y pwynt hwnnw a

Ni fyddwn yn ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol nad ydyn ni wedi gofyn amdani yn y Gwahoddiad i Dendro.

## Amser a Dyddiad Cau

Ni dderbynnir cyflwyniadau sy'n cyrraedd ar ôl **hanner dydd 3 Rhagfyr 2021**

Cyfrifoldeb Ymgeiswyr fydd sicrhau bod eu dyfynbris yn cyrraedd fan hwyraf erbyn yr amser a bennwyd .

Cofiwch na chaiff cyflwyniadau hwyr neu anghyflawn eu hystyried.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| Hysbysebu'r tendr ar GwerthwchiGymru | 12 Tachwedd 2021 |
| Dyddiad cau ar gyfer cwestiynau drwy GwerthwchiGymru | 30 Tachwedd 2021 |
| Dychwelyd Ymatebion Tendro | 3 Rhagfyr 2021 |
| Gwerthuso | Wythnos yn cychwyn 6 Rhagfyr 2021 |
| Cyfweliadau â Darparwyr Posibl | 13 Rhagfyr 2021 |
| | |
| Dyddiad Tebygol Cyhoeddi'r Penderfyniad | 5 Ionawr 2022 |
| Diwedd y contract | 30 Mehefin 2022 |

## Ymholiadau a Cheisiadau am eglurhad ynghylch y Tendr

Byddwn ni'n ceisio ateb pob cwestiwn cyn gynted â phosibl ond ni allwn warantu ymateb o fewn cyfnod penodol.

DIM OND drwy borth GwerthwchiGymru y cewch chi gyflwyno cais am eglurhad a hynny hyd at hanner dydd 30 Tachwedd 2021.

Er mwyn sicrhau bod y Darparwyr Posibl i gyd yn cael eu trin yn deg, bwriadwn gyhoeddi cwestiynau a cheisiadau am eglurhad gan Ddarparwyr Posibl ynghyd â'n hymatebion (ond nid ffynhonnell y cwestiynau hynny) drwy gyfrwng porth GwerthwchiGymru. Bydd y porth yn rhoi gwybod i Ddarparwyr Posibl am unrhyw ddiweddariadau.

Anfonir negeseuon egluro drwy borth GwerthwchiGymru.

## Gwerthuso

Bydd y broses Dendro'n cael ei chynnal er mwyn sicrhau bod tendrau'n cael eu gwerthuso mewn ffordd agored a thryloyw. Bydd penderfyniadau i ddyfarnu'r contract yn cael eu gwneud gan Gyngor Celfyddydau Cymru ac yn cael eu seilio ar asesu i ba  raddau y mae'r cais yn cydweddu â gofynion y briff a gyhoeddwyd.

Nid ydym yn rhwym o dderbyn y dyfynbris isaf nac o dderbyn yr un dyfynbris o gwbl ac ni fyddwn yn rhwym ychwaith o dderbyn y Contractwr fel unig gyflenwr.
Byddwn ni'n asesu ymatebion y Darparwr Posibl yn ôl pob un o'r meini prawf uchod (Adran 4) ac yn gwerthuso fel a ganlyn:

| Sgôr | Meini Prawf Sgorio |
|---|---|
| 4 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. Mae'r ymateb hefyd yn dangos sut y darperir gwerth ychwanegol perthnasol. |
| 3 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr nodi'n glir dystiolaeth gynhwysfawr y bydd yr ymateb yn cyflawni'r holl ofynion. |
| 2 | Mae ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i gael dealltwriaeth  o sut y caiff y gofyniad ei fodloni. Gall y gwerthuswr weld yn glir dystiolaeth ddigonol y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion a nodwyd. Mae'n bosibl bod yr ymateb naill ai wedi codi pryder, sawl mater bach, neu ei fod yn anghyson mewn rhai agweddau. |
| 1 | Nid yw ymateb y Darparwr Posibl yn galluogi'r gwerthuswr i ddeall sut y bodlonir y gofyniad. Ni all y gwerthuswr weld yn glir y bydd yr ymateb yn cyflawni'r rhan fwyaf o'r gofynion oherwydd diffyg tystiolaeth a/neu nad yw'r Darparwr Posibl ddim ond yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig. |
| 0 | Mae'r gwerthuswr o'r farn bod y Darparwr Posibl wedi methu ag ateb y cwestiwn neu heb roi ymateb perthnasol. |

Gan ddefnyddio'r diffiniadau uchod, bydd ymateb y Darparwr Posibl i bob maen prawf yn cael ei werthuso a'i sgorio yn unol â'r pwysoliad fel a ganlyn:

| | Maen Prawf | Sgorio | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| 1. | Methodoleg effeithiol | 20=Rhagorol<br>15=Da<br>10=Iawn<br>5=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X4 |
| 2. | Profiad o ddatblygu fframweithiau a modelau tebyg ac fe allai hynny gynnwys datblygu a phrofi methodolegau a dulliau amgen | 20=Rhagorol<br>15=Da<br>10=Iawn<br>5=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X4 |
| 3. | Deall y cyd-destun cyfredol a'r sgyrsiau sydd ar y gweill o fewn sector y celfyddydau gyda golwg ar lesiant, democratiaeth ddiwylliannol, cyfrifoldeb am yr hinsawdd, y Gymraeg a chydraddoldebau | 20=Rhagorol<br>15=Da<br>10=Iawn<br>5=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X4 |
| 4. | Deall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig (Nodau Datblygu Cynaliadwy) | 20=Rhagorol<br>15=Da<br>10=Iawn<br>5=Gwael<br>0=Gwael Iawn | X4 |
| 5. | Deall blaenoriaethau Cyngor Celfyddydau Cymru a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru a'r hyn rydyn ni'n ceisio'i gyflawni | 12=Rhagorol<br>9=Da<br>6=Iawn<br>3 =Gwael<br>0=Gwael Iawn | X3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6. | Gallu dechrau ar y gwaith yn gyflym | 4=Rhagorol<br>3=Da<br>2=Iawn<br>1 =Gwael<br>0=Gwael Iawn | Dim pwysoliad |
| 7. | Hanes o lwyddo wrth gyflwyno gwaith mewn pryd ac o fewn y gyllideb | 4=Rhagorol<br>3=Da<br>2=Iawn<br>1 =Gwael<br>0=Gwael Iawn | Dim pwysoliad |
| 8. | Gwerth am arian | 4=Rhagorol<br>3=Da<br>2=Iawn<br>1 =Gwael<br>0=Gwael Iawn | Dim pwysoliad |
| | Cyfanswm Uchaf | 104 | |

Mae cyfanswm y marciau sydd ar gael yn y tabl uchod yn cynnwys unrhyw bwysoliad a ddefnyddiwyd, yn ôl y gofyn.

Rhaid i Ddarparwyr Posibl fod yn eglur ac yn gynhwysfawr gan sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn ymateb yn benodol i bob maen prawf a bennwyd a'i bod yn cael ei rhoi yn y lle iawn oherwydd dyma fydd unig ffynhonnell y wybodaeth a ddefnyddir i sgorio a graddio'r ymatebion.

Rydyn ni'n cadw'r hawl i beidio â rhoi'r contract i'r Tendr sy'n cynnig y pris isaf nac ychwaith i'r un Tendr o gwbl, gan gadw hefyd yr hawl i beidio â derbyn Tendr yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol.

## Cyfweliadau

Rydyn ni'n rhagweld y byddwn ni’n penodi'r Darparwr/Darparwyr a ffafriwn ar sail ein hasesiad o'r cynigion fel y nodwyd uchod a thrwy gyfweliad. Byddwn ni'n gwahodd hyd at bum Darparwr Posibl sy'n cael y sgôr uchaf i gyfweliad.

Byddwn ni'n rhoi gwybod am amseroedd a dyddiadau'r cyfweliadau unigol cyn gynted â phosibl ar ôl dyddiad dychwelyd y tendrau, sef 3 Rhagfyr 2021 gan ddisgwyl cynnal y cyfweliadau **13 Rhagfyr 2021**. Cyfweliadau ar-lein fydd y rhain ac ni fyddan nhw'n para mwy nag 1 awr.

Dylai Darparwyr Posibl gofio na fydd modd i fwy na thri o bobl ddod i'r cyfweliadau. Rhaid i gynrychiolwyr y Darparwyr Posibl gynnwys y rheolwr contract a fydd yn gyfrifol am y contract ynghyd ag aelodau perthnasol o'r staff a fydd yn gweithio arno.

Ni chaiff dim meini prawf na phwysoliadau newydd eu cyflwyno adeg y cyfweliad. Ni chaiff marciau ar wahân eu 'neilltuo' i'w dyfarnu adeg y cyfweliad ychwaith. Yn hytrach, bydd y panel gwerthuso'n defnyddio'r ymatebion a roddir yn y cyfweliadau yn sail ar gyfer 'cymedroli' y sgoriau gwreiddiol a roddwyd i'r ymatebion ar gyfer pob un o'r meini prawf wrth werthuso'r tendrau, a hynny naill ai drwy godi neu ostwng y marciau.

Bydd y cyfweliad yn rhoi sylw i'r canlynol:

| Eitem | Amser a neilltuir |
|---|---|
| Cyflwyno'r cynnig | 30 munud |
| Cwestiynau gan y Panel Gwerthuso | 30 munud |

## Manylion y Contract

Mae disgwyl i'r contract ddechrau ar 1 Rhagfyr 2021 a gorffen erbyn 30 Mehefin 2022.

Dylai'r gyllideb y byddwch yn ei chynnig gynnwys TAW (lle bo hynny'n briodol) yn ogystal â chostau teithio a threuliau eraill sy'n codi'n uniongyrchol yn sgil y prosiect hwn.

Bydd eich dyfynbris yn unol â chyfarwyddiadau Cyngor Celfyddydau Cymru i Ddarparwyr Posibl (Atodiad 1) a'r gofynion a nodwyd yn y Gwahoddiad hwn i dendro.

Dyma amserlen y taliadau:

- 20% wrth roi'r contract
- 40% yn y pwynt canol
- 40% ar ol cwblhau'r contract yn foddhaol

Gwneir y taliadau cyn pen 30 diwrnod inni dderbyn anfoneb foddhaol. Telir drwy BACS.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i liniaru effaith ei waith beunyddiol ar yr amgylchedd ac rydyn ni'n annog ein cyflenwyr i gyd i fynd ati i weithio mewn ffordd sydd er lles yr amgylchedd, gyda'r nod o sicrhau cyn lleied o niwed iddo ag sy'n bosibl.

## Trefniadau Is-gontractio

Ni chaiff y Darparwr Posibl heb ganiatâd ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru aseinio'r cytundeb hwn ac ni chaiff heb ganiatâd Cyngor Celfyddydau Cymru is-gontractio unrhyw ran o'r gwaith, heb gytundeb ymlaen llaw (a bydd y caniatâd hwnnw'n ddarostyngedig i ba amodau bynnag y bydd Cyngor Celfyddydau Cymru'n eu hystyried yn briodol).

## Trosglwyddo ar Ddiwedd y Contract

Ar ddiwedd y contract, dim ond ar ôl gorffen neu drosglwyddo'n foddhaol yr holl faterion sydd heb eu cwblhau, gan gynnwys trosglwyddo'r holl wybodaeth, y cofnodion a'r data ac ati y caiff y taliad olaf ei dalu. Eiddo Cyngor Celfyddydau Cymru i'w ddefnyddio a'i ddosbarthu'n briodol fydd allbwn y comisiwn hwn.

# Atodiad 1 Cyfarwyddiadau i Ddarparwyr Posibl

## 1 CYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL

1.1 Nod y cyfarwyddiadau hyn yw sicrhau bod pob Darparwr Posibl yn cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Mae'n bwysig felly eich bod yn rhoi'r holl wybodaeth rydyn ni'n gofyn amdani yn y fformat a'r drefn a nodwyd.

1.2 Dylai Darparwyr Posibl ddarllen y cyfarwyddiadau hyn yn ofalus cyn llenwi'r dogfennau Tendro. Gall methu â chydymffurfio â'r gofynion hyn ar gyfer cwblhau a chyflwyno'r Tendr arwain at wrthod y Tendr. Felly, rydyn ni'n cynghori Darparwyr Posibl i ymgyfarwyddo'n llawn â hyd a lled a natur gwasanaethau a rhwymedigaethau'r contract.

1.3 Bydd yr holl ddeunydd sy'n cael ei gyhoeddi yng nghyswllt y Gwahoddiad hwn i Dendro'n parhau'n eiddo i Gyngor Celfyddydau Cymru a dim ond at ddiben yr ymarfer caffael hwn y caiff ei ddefnyddio.

1.4 Ni chaiff y Darparwr Posibl gysylltu (nac yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol) â'r un cyflogai, asiant neu ymgynghorydd i Gyngor Celfyddydau Cymru sydd mewn unrhyw ffordd yn gysylltiedig â'r ymarfer caffael hwn, oni fydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn rhoi cyfarwyddyd gwahanol ynghylch hynny.

1.5 Rhaid i Ddarparwyr Posibl dderbyn a chydnabod na fydd Cyngor Celfyddydau Cymru drwy gyhoeddi'r Gwahoddiad hwn i Dendro yn rhwym o dderbyn yr un Tendr a'i fod yn cadw'r hawl i beidio â chwblhau contract ar gyfer rhai o'r gwasanaethau neu'r holl wasanaethau y gwahoddir tendrau ar eu cyfer.

1.6 Os bydd gofyn i Ddarparwyr Posibl gyflwyno dogfen ar ffurf atodiad wrth ymateb i gwestiwn, rhaid cyflwyno'r atodiadau hynny ar fformat sy'n dderbyniol i Gyngor Celfyddydau Cymru. Dyma'r fformatau sy'n dderbyniol

- MS Word,
- MS Excel,

- MS PowerPoint,
- JPEGs
- PDF

Os bydd Darparwyr Posibl am gyflwyno atodiad ar fformat gwahanol i'r uchod dylen nhw holi Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyntaf i weld a fyddan nhw'n fodlon ei dderbyn. Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cadw'r hawl i farnu bod ymateb yn anghyflawn os bydd Darparwr Posibl yn cyflwyno atodiad mewn fformat sydd heb ei restru uchod a hynny heb ganiatâd Cyngor Celfyddydau Cymru.

1.7 Mae Cyngor Celfyddydau Cymru'n cadw'r hawl i ddiwygio pob adran neu unrhyw un o adrannau'r Gwahoddiad hwn i Dendro gan ychwanegu atynt neu eu dileu a hynny unrhyw bryd yn ystod yr ymarfer caffael.

1.8 Gellir cyflwyno pob ymateb i'r Gwahoddiad hwn i Dendro yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

## 2 CYFRINACHEDD

2.1 Yn amodol ar yr eithriadau y cyfeirir atynt yng Nghyfarwyddyd 2.2, mae cynnwys y gwahoddiad hwn i dendro'n cael ei ddarparu gan Gyngor Celfyddydau Cymru ar yr amod y bydd Darparwyr Posibl yn gwneud y canlynol:

2.1.1 trin cynnwys y gwahoddiad hwn i dendro ac unrhyw ddogfennau cysylltiedig (sef y 'Wybodaeth') yn gyfrinachol bob amser, ac eithrio i'r graddau ei fod eisoes yn hysbys i'r cyhoedd;

2.1.2 peidio â datgelu, copio, atgynhyrchu, dosbarthu na throsglwyddo dim o'r Wybodaeth i neb arall ar unrhyw adeg na chaniatau i'r un o'r pethau hynny ddigwydd;

2.1.3 peidio â defnyddio dim o'r Wybodaeth at unrhyw ddiben ac eithrio at ddibenion cyflwyno (neu benderfynu a ddylid cyflwyno) Tendr;

2.1.4 peidio ag ymgymryd â dim gweithgarwch cyhoeddusrwydd ar unrhyw gyfrwng.

2.2 Caiff Darparwyr Posibl ddatgelu, dosbarthu neu drosglwyddo unrhyw ran o'r Wybodaeth i i'w hymgynghorwyr neu i'w hisgontractwyr neu i rywun arall ar yr amod:

2.2.1 bod hyn yn digwydd gyda'r unig ddiben o alluogi cyflwyno Tendr a bod y sawl sy'n derbyn y Wybodaeth yn addo yn ysgrifenedig i gadw'r Wybodaeth yn gyfrinachol ar yr un telerau â phe bai'r person hwnnw'n Ddarparwr Posibl; neu

2.2.2 fod y Darparwr Posibl yn cael caniatâd ysgrifenedig Cyngor Celfyddydau Cymru ymlaen llaw i ryddhau, dosbarthu neu drosglwyddo Gwybodaeth o'r fath; neu

2.2.3 fod y datgeliad yn cael ei wneud gyda'r unig ddiben o gael cyngor cyfreithiol gan gyfreithwyr allanol gyda golwg ar gaffael neu unrhyw gontract sy'n codi yn ei sgil; neu

2.2.4 fod yn rhaid i'r Darparwr Posibl ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn ol y gyfraith.

2.3 O ran Cyfarwyddiadau 2.1 a 2.2 uchod, mae'r diffiniad o 'berson' yn cynnwys unrhyw berson, unigolyn, cwmni, sefydliad, corff neu gymdeithas, corfforedig neu anghorfforedig ond nid y rheini'n unig ychwaith.

## 3. DIOGELU DATA A RHYDDID GWYBODAETH

3.1 Rhaid rhoi sylw dyledus i ofynion cyfrinachedd y contract ac i Ddeddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig.

3.1.1 Bydd y Contractwr yn sicrhau bod yr holl waith prosesu data personol sy'n berthnasol i'r contract hwn, o'i gychwyn i'w gwblhau, yn unol â gofynion Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig.

3.1.2 Efallai y bydd y Contractwr yn prosesu Data Personol a/neu Ddata Personol Sensitif o bryd i'w gilydd wrth gyflawni ei rwymedigaethau o dan y  Contract hwn. Ni chaiff y Contractwr brosesu Data personol a/neu Ddata Personol Sensitif o'r fath (yn unol â diffiniad y GDPR) ac eithrio yn unol â'r contract hwn, contract y gellir ei ddiwygio o bryd i'w gilydd drwy gytundeb y naill ochr a'r llall. Dim ond yn ystod Cyfnod y Contract neu hyd nes y caiff ei derfynu (pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf) y caiff y Contractwr brosesu Data Personol.

3.1.3 Ni chaiff y Contractwr gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Cytundeb hwn mewn ffordd sy'n peri i'r Parti arall dorri

unrhyw un o'i rwymedigaethau o dan y Ddeddfwriaeth Diogelu Data.

3.1.4 Rhaid i'r Contractwr bob amser sicrhau ei fod yn cadw at yr addewid i warchod cyfrinachedd y sawl sy'n cymryd rhan yn yr arolwg ac na ryddheir dim data y gellid eu priodoli i unigolyn y byddai modd ei adnabod, heb ganiatâd yr unigolyn hwnnw. Rhaid ei gwneud yn glir mewn taflenni a llythyrau i'r sawl sy'n cymryd rhan, mai'r unig bobl a gaiff weld y data fydd aelodau allweddol tîm y Contractwr a'r sefydliadau comisiynu.

3.1.5 Bydd y Contractwr yn gyfrifol am sicrhau na fydd unrhyw ddata sy'n cael eu casglu yn peryglu cyfrinachedd ymatebwyr.

3.1.6 Disgwylir i'r contractwr llwyddiannus gadw ffurflenni sydd wedi'u llenwi'n ddiogel; a hynny ond at ddiwedd cyfnod y contract.

3.2 Bydd y Darparwr Posibl yn dangos ei fod yn deall Amrywiaeth a Chydraddoldeb ac yn dangos ei ymrwymiad i'r meysydd hyn.

3.3 Yn unol â'r rhwymedigaethau a'r dyletswyddau sydd ar awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, efallai y bydd gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatgelu gwybodaeth a gyflwynwyd iddo gan y Darparwyr Posibl.

3.4 Bydd Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymdrechu i gadw cyfrinachedd. Serch hynny, dylai Darparwyr Posibl gofio, hyd yn oed os bydd gwybodaeth yn wybodaeth fasnachol sensitif, y gall fod gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru ddatgelu gwybodaeth o'r fath yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

3.5 Bydd gofyn i Gyngor Celfyddydau Cymru lunio barn annibynnol ynghylch a yw'r wybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac a ddylid ei datgelu neu beidio er budd y cyhoedd. Felly, ni all Cyngor Celfyddydau Cymru warantu na chaiff gwybodaeth sydd wedi'i dynodi'n 'gyfrinachol' neu'n 'fasnachol sensitif' ei datgelu.